Huw Irranca-Davies AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Gwledig Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd,
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddClimate@senedd.wales

16 Gorffennaf 2024

Annwyl Llŷr,

Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu: Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid) 2024.

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i adael i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu: Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid) 2024 ("y Rheoliadau") erbyn 29 Gorffennaf 2024.

Derbyniais lythyr gan yr Arglwydd Douglas-Miller, y cyn-Weinidog Bioddiogelwch a Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn gofyn i mi roi cydsyniad ar gyfer y Rheoliadau. Caiff y Rheoliadau eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, drwy arfer y pwerau a roddir gan Adran 8C(1) a (2) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Diben y Rheoliadau yw gwarchod bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, yn dilyn cytundeb Fframwaith Windsor. Mae'r diwygiadau a gynhwysir yn y Rheoliadau yn newid y ffordd y mae planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill yn symud rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, gan adfer llif masnach hwylus o fewn marchnad fewnol y Deyrnas Unedig.

Mae'r Rheoliadau yn ehangu'r rhestr o blanhigion, cynnyrch planhigion a chynnyrch sy'n dod o anifeiliaid (POAO) nad ydynt yn dod o'r UE, ond sy'n dod o Weddill y Byd, ac sy'n gymwys i'w symud o dan Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon a'r cynllun symud wedi'i hwyluso.

Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a disgwylir iddo gael ei osod gerbron Senedd y DU ar 29 Gorffennaf 2024.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i sylwedd y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru. Mae'r Offeryn Statudol yn ymwneud â maes datganoledig. Fodd bynnag, mae'n weithredol ledled Prydain Fawr ac yn cael effaith o ran derbyn nwyddau i mewn i Ogledd Iwerddon. Mae hefyd yn gosod gofynion ar weithredwyr Gogledd Iwerddon. O ystyried y ffaith ei fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon, ni fyddai o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru i wneud yr Offeryn Statudol hwn yn un i Gymru yn unig. Yn ogystal, nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson a bydd y rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Mae gwneud y rheoliadau yn rhai sy'n berthnasol i Brydain Fawr gyfan hefyd yn sicrhau na fydd perygl o wahaniaeth deddfwriaethol yn y DU a fyddai'n debygol o beryglu gweithrediad Fframwaith Windsor. Felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Mike Hedges MS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Huw Irranca Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig